# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 1af MAI 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth y 1af o Fai yn Neuadd Ffostrasol

**Yn bresennol** Cyng Julie Davies, Cyng Emyr Wyr Jones, Cyng Evan John Jones, Cyng Eirian James, Cyng Owenna Davies, Cyng Roger Davies, Cyng Mark Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng Maldwyn Lewis, Cyng Rhys Williams, Cyng Llŷr Evans a'r Clerc Eleanor Colbourne

**Clerc** Yn absenoldeb y Clerc cymerwyd y cofnodion gan y Cyng Owenna Davies

**Cadeirydd** Yn absenoldeb y cadeirydd lliwiwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd y Cyng Eirian James

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Maldwyn Lewis, Cyng Rhys Williams, Cyng Llŷr Evans a'r Clerc Eleanor Colbourne | | |
| **2. Personol** | Hoffai'r Cyngor ddymuno'n dda i'r Clerc ar ôl ail lawdriniaeth yn yr Ysbyty.<br>Hoffai'r Cyngor ddymuno adferiad buan i'r cyn gynghorydd D. E. Davies. | OD i ddanfon cerdyn ar ran y Cyngor | 05.06.18 |
| **3. Cadarnhau cofnodion** | Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng Owenna Davies. Eiliwyd hyn gan y Cyng Mark Davies | | |
| **4. Datgan diddordeb** | Nid oedd unrhyw Gynghorydd wedi datgan diddordeb am y cyfarfod hwn | | |
| **5. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | **Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**<br>Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd, y Cyng Sir a'r Clerc ni lwyddwyd i ddiweddaru y materion canlynol.<br>• Diffibrilwyr<br>• trefnu dyddiad i siarad ar Clerc am cynllun gweithredu<br><br>Casglu sbwriel<br>Diolch i'r Cyng Mark Davies am roi cyflenwad o fagiau du i bob ardal ar y noson.<br>Diflas fu'r ymateb yng Nghoed y bryn a Ffostrasol ond daeth nifer dda o bobol i gasglu sbwriel yn ardal Rhydlewis. Bydd y grŵp yn casglu eto yn fuan.<br>Bydd angen mwy o gyswllt gyda'r cymunedau eraill cyn y casgliad nesaf. Fodd bynnag mae nifer o unigolion yn casglu sbwriel yn gyson wrth gerdded yn y Plwyf.<br>Trefnu dyddiadau eraill yn y cyfarfod nesaf a chysylltu eto gyda Cadw Cymru'n Daclus | Eitemau ar agenda y cyfarfod nesaf | 05.06.18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6. Materion y Cynghorydd Sir** | Dim gwybodaeth i'w gofnodi | | |
| **7. Gohebiaeth** | Derbyniwyd llythyr gan y Cyng Rhys Williams yn nodi na fydd yn parhau fel cynghorydd ar ôl Gorffennaf 1af 2018.<br><br>Mae'r Cyngor yn derbyn ei ddymuniad ond yn nodi tristwch mawr nad ydyw'n dymuno parhau ar y cyngor. Mae'n hawdd deall y pwysau sydd ar berson ifanc mewn swydd i gyflawni ei rol fel y dymuna wneud.<br><br>Derbyniodd rhai Cynghorwyr sydd â chyswllt gwe gopi o ddogfen telerau cyflog i glercod. Trafodir ar y cyd a'r materion cyflog yn y cyfarfod nesaf | Y Clerc<br><br><br><br><br><br><br><br>Cyng Rhys Williams | 05.06.18<br><br><br><br><br><br><br><br>05.06.18 |
| **8. Cynllunio** | **A 180318**<br>**Land known as Cwm Plas, adjoining Gernos Farm, Maesllyn – erection of an affordable dwelling.**<br>Dim gwrthwyebiad cyn belled ag y bo'r perchennog yn cwrdd â holl ofynnion cynllunio Cyngor Sir Ceredigion | Clerc | 05.06.18 |
| **9. Ariannol** | Talwyd y canlynol<br>o Treth y Clerc - £87.60<br>o Tal y Clerc - £350.02 | Y Cyng Rhys Williams i gysylltu ar Cwmni Ashmole i ddatrys sut y mae tal 'Statutory Sick Pay' yn gweithio, ac i ofyn i'r Clerc am nodyn 'Fitnote' | 05.06.18 |
| **10. Diffibriliwr** | Ni dderbyniwyd diweddariad felly parhau yn y cyfarfod nesaf | Y Cadeirydd i barhau a'r dasg hon ac i ddiweddaru pawb yn y cyfarfod nesaf. | 05.06.18 |
| **10 Gwefan** | Mae'r wefan yn barod i fynd yn fyw.<br>Trefnu'r cyfarfod i'r holl gynghorwyr i weld y wefan gyfan ar Nos Iau Mai 4ydd yn Nhafarn Ffostrasol am 7.30 p.m. | Cyng Owenna Davies i | 05.06.18 |
| **11. Cynghorwyr Newydd** | Ni dderbyniwyd gwybodaeth pellach | Y Clerc | 05.06.18 |
| **12. Diogeli Data** | Gan na dderbyniwyd diweddariad bydd y dasg yn parhau ar gyfer y cyfarfod nesaf. | Cadeirydd i arwain yn absenoldeb y Clerc | 05.06.18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13. Ethol Swyddogion** | Cadeirydd 2018 - 2019<br>Etholwyd y Cyng Owenna Davies yn gadeirydd<br>Is Gadeirydd<br>Etholwyd y Cyng Mark Davies yn Is Gadeirydd<br>Bydd y swyddi eraill yn parhau yr un fath. | | |
| **14. Cyfeillion Ysbyty Aberteifi** | Dim gwybodaeth | | |
| **15. Agenda Ddwyieithog** | Trafodwyd yr angen i sicrhau bod yr agenda a'r cofnodion yn ddwyieithog ac i'w gweld ar y wefan. | Clerc i ofyn i gyfieithwyr lleol priodol am delerau gwaith cyfieithu ar ran y Cyngor | 05.06.18 |
| **16. Cinio Blynyddol** | Mai 16eg Tafarn Ffostrasol am 7.00 – 7.30 p.m. | Clerc | |
| **17. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Diffibliwr<br>Tal i bawb (cyflog a thelerau'r Clerc)<br>Asesiad Risg<br>Diogelu Data<br>Cyrsiau i Gynghorwyr Newydd<br>Cynghorwyr Newydd<br>Casglu sbwriel | | 05.06.18 |
| **18. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mehefin 5ed 2018 yn Neuadd Coedybryn am 7.30 y.h. | | |

Llofnod (Cadeirydd) ________________________________________